



BSc (Anrh.) Ffarmacoleg Feddygol (B210)

**Hyd: Tair blynedd neu bedair blynedd gyda
Blwyddyn ar Leoliad Proffesiynol**
Nifer y myfyrwyr newydd fel rheol: **32**
Nifer y ceisiadau fel rheol: **250**

Hanfod Ffarmacoleg Feddygol yw astudio sut mae cyffuriau a meddyginiaethau'n gweithio ar lefel y gell a'r moleciwl i gael effaith therapiwtig (a niweidiol ar adegau) ar bobl. I ddefnyddio cyffur yn ddiogel mae angen gwerthfawrogi ei gyd-destun ymarferol, ei gemeg a sut y gall cyfansoddiad seicolegol, biocemegol a geneteg unigolyn gael effaith ar yr ymateb a ddymunir.

Rhaglen fodiwlaid tair blynedd amser llawn yw'r radd BSc (Anrh.) hon (neu mae opsiwn o bedair blynedd), ac mae'n cynnig archwiliad dwfn ac o safon uchel o Ffarmacoleg Feddygol fodern ac yn darparu hyfforddiant gwyddonol arbenigol mewn labordai ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae'n hybu ac yn datblygu'ch chwilfrydedd naturiol, eich gallu i gyfathrebu, sgiliau trefnu a datrys problemau, ac yn eich paratoi i weithio'n annibynnol ac mewn tîm. Mae'n rhoi dealltwriaeth fanwl a chynhwysfawr o effeithiau biolegol a mecanweithiau gweithredu amrywiaeth mawr o sylweddau bioweithredol.

Ein prif nod yw cefnogi datblygiad gwyddonwyr sydd wedi'u hyfforddi i ymchwilio. Fodd bynnag, gall myfyrwyr sydd â chymwysterau priodol fod yn gymwys i ymuno ag un o gyrsgiau pedair blynedd Mynediad Graddedigion i Feddygaeth (GEM, A101/A102 Caerdydd/gogledd Cymru) Prifysgol Caerdydd, yn syth ar ôl cwblhau eu gradd mewn Ffarmacoleg Feddygol.



Mae Ffarmacoleg Feddygol wrth galon meddygaeth fodern

www.caerdydd.ac.uk/study/undergraduate

Blwyddyn un

Caiff hon ei astudio ochr yn ochr â myfyrwyr o Ysgol y Biowyddorau. Ein nod yw rhoi dealltwriaeth gadarn o'r gwyddorau cemegol a biolegol i chi; bydd biocemeg, ffisioleg a geneteg, yn arbennig, yn eich helpu i ddeall sut mae cyffuriau'n gweithio ar y lefelau moleciwlaidd/meinweoedd/organau.

Mae cael profiad o achosion cleifion rhithwir o ran therapiwteg, tocsioleg a chyffuriau sy'n cael eu cam-drin yn pontio'r bwch rhwng theori ffarmacolegol a'r unigolyn.

Blwyddyn dau

Mae'r modiwlau'n astudio cyffuriau ar draws niwrodrosgliwyddiad, endocrinoleg a signalau cell paracrinoleg, haematoleg, y system nerfol ganolog, afiechyd cardiofasgiwlaidd, imiwnoleg a chanser. Bydd modiwl cwbl ymarferol yn rhoi sail gadarn i chi wneud astudiaethau swyddogaethol meintiol ac ansoddol ac yn rhoi hyfforddiant ymarferol ynghylch uwch-dechnegau labordy. Mae'r myfyrwyr hynny sydd â diddordeb mewn GEM yn astudio modiwl unigryw am anatomeg glinigol. Yn y modiwl, ystyrir ymarfer dyrannu celaneddol er mwyn lleoli a dehongli gosodiad a swyddogaeth y corff dynol. Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael ar y modiwl hwn, a rhoddir blaenoriaeth i'r myfyrwyr o flwyddyn 1 sy'n perfformio orau.

Blwyddyn ar Leoliad Proffesiynol (PPY)

Treulir y PPY (9 i 12 mis) gydag un sefydliad (yn y diwydiant fferyllol neu ddiwydiant cysylltiedig, neu labordy ymchwil yn y llywodraeth / mewn prifysgol neu debyg). Fe'i cynlluniwyd i ymestyn dysgu academiaidd yn y gweithle a'i nod yw cynnig sgiliau cyflogadwyedd hynod werthfawr. "Cwrs caeedig" yw'r opsiwn hwn ac nid yw ar gael drwy UCAS.

Blwyddyn olaf

Bydd myfyrwyr yn astudio mewn amgylchedd meddygol dwys a arweinir gan ymchwil. Bydd y modiwlau'n datblygu llawer o wahanol feysydd yn drylwyr, megis ffarmageneteg, niwroffarmacoleg, datblygu cyffuriau a therapiwteg ac imiwnoleg, canser a bioleg cardiofasgwlar.

Mae un modiwl yn benodol yn datblygu sgiliau dadansoddi beirniadol wrth ddarllen papurau gwyddonol, gan hyrwyddo'r gallu i gyflwyno data'n gywir ac yn ddiamwys. Un o brif nodweddion y flwyddyn hon yw prosiect ymchwil biofeddygol sylweddol. Mae'n seiliedig ar arbrofi neu ddadansoddi data neu lyfrgell, ac mae'n datblygu uwch-sgiliau cymhwysol a sgiliau dadansoddi hollbwysig.

Cyfunir myfyrwyr y flwyddyn olaf, hefyd, ag amryw o fyfyrwyr meddygol sy'n gwneud gradd BSc Ymsang mewn Ffarmacoleg. Bydd hyn yn cynnig llwyfan gwerthfawr i gydifyfyrwyr ryngweithio'n rhyngddisgyblaethol.

Gofynion mynediad

Safon Uwch:

AAB-ABB i gynnwys Cemeg ac o leiaf un pwnc Gwyddonol arall (Bioleg, Ffiseg, Mathemateg neu Ystadegau). Dim ond un pwnc mathemategol a gaiff ei dderbyn. Nid ydym yn derbyn Astudiaethau Cyffredinol na Meddwl yn Feirniadol. Bydd angen i ymgeiswyr sy'n cyflawni cymhwyster Safon Uwch mewn Gwyddoniaeth basio'r elfen hon lle nodir ardystiad ymarferol ar wahân.

Tystysgrif Her Sgiliau Uwch Bagloriaeth Cymru 2018 (WBASCC):

AAB mewn dau bwnc Safon Uwch (rhaid cynnwys Cemeg a phwnc gwyddonol arall, fel yr uchod) a'r WBASCC. Caiff WBASCC ei dderbyn yn lle 3ydd cymhwyster Safon Uwch. Nid ydym yn derbyn Astudiaethau Cyffredinol na Meddwl yn Feirniadol.

Bagloriaeth Ryngwladol:

35 pwynt i gynnwys 665 o bynciau lefel uwch gan gynnwys 6 mewn Cemeg ac ail bwnc gwyddonol (o blith Bioleg, Ffiseg, Mathemateg neu Ystadegau). (Heb gynnwys Theori Gwybodaeth a'r Traethawd Estynedig).

TGAU:

TGAU Mathemateg gradd B/6.

TGAU Saesneg Iaith Gradd B/6 neu TGAU Saesneg Iaith Gyntaf gradd B/6. (Ni dderbynnir TGAU Saesneg fel Ail Iaith.)

Croesewir cymwysterau cyfatebol/tramor amgen.

"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn angerddol am y pwnc, gan sicrhau eich bod bob amser yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil newydd yn y maes."

Myfyriwr Graddedig Ffarmacoleg Feddygol

Diddordeb? Cysylltwch â ni...

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Derbyn Myfyrwyr yn yr Ysgol Meddygaeth:



medpharmadmissions@caerdydd.ac.uk



+44 (0)29 2251 2037

www.caerdydd.ac.uk/study/undergraduate

